Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 22 Hydref 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 20 Hydref 2015, sef:

Yn 2010, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei bod yn cymryd camau rhagarweiniol ar gyfer archwilio/ymchwilio i gamau gweithredu Cyngor Sir Gaerfyrddin fel yr awdurdod cynllunio lleol.

Ymddengys na chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad ar ôl hynny ac y cyflwynwyd sylwadau i Swyddfa Archwilio Cymru gan Mr Mark James CBE ynglŷn â'r disgwyliad o ymchwiliad/archwiliad o'r fath a hefyd ynghylch gohebiaeth a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yr oedd wedi ei chael oddi wrth drigolion Sir Gaerfyrddin yn dilyn y cyhoeddiad y cyfeirir ato uchod.

Byddwch cystal â darparu copi o unrhyw ohebiaeth a'r holl ohebiaeth a fu rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Mr James yn ystod 2010/2011 sy'n ymwneud â'r ymchwiliad/archwiliad arfaethedig.

Gweler ynghlwm yr eitemau canlynol sy'n cyfateb i'r disgrifiad yn eich cais:

1. Llythyr oddi wrth Ceri Stradling i Mark James dyddiedig 19 Ebrill 2010;
2. E-bost oddi wrth Ceri Stradling i Mark James dyddiedig 19 Ebrill 2010 am 13:50, e-bost oddi wrth Mark James i Ceri Stradling dyddiedig 19 Ebrill 2010 am 14:39.

Mae Eitem 1 wedi ei golygu oherwydd bod yr wybodaeth o fewn cwmpas yr esemptiad gwybodaeth bersonol a ddarperir gan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n esemptiad absoliwt. Mae'r esemptiad yn berthnasol oherwydd y byddai datgelu'r wybodaeth yn torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

Noder nad oes gennym ohebiaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad yn eich cais am y cyfnod ar ôl 19 Ebrill 2010. Mae hynny oherwydd bod trafodaethau pellach wedi eu cynnal mewn cyfarfodydd ar ôl y dyddiad hwnnw yn hytrach na thrwy ohebiaeth ysgrifenedig.

Dylwn hefyd nodi bod gennym rywfaint o ohebiaeth at Mr James ac oddi wrtho ynglŷn â thestun y cais yn ystod y misoedd cyn dechrau blwyddyn ariannol 2010-11.

Os hoffech gwyno am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu ysgrifennu ataf.

Mae'n rhaid imi hefyd dynnu eich sylw at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth lle y cewch gyflwyno cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynglŷn â pha un a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 01625 545745
Rhif ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl eich bod wedi dihysbyddu ein gweithdrefnau cwynion mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae mwy o gyfarwyddyd ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth http://www.informationcommissioner.gov.uk.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips